

Llwybr Ceiriog

Disgrifiad o'r Daith

Disgrifiad yr un ffordd â'r cloc gan ddechrau yn Fferm Spring Hill, Cyfeirnod Grid SJ 210 346 (Lledred 52.903464 Hydred -3.175237).

Brasamcanwyd yr holl bellterau ac uchderoedd.

Gan ddechrau yn Spring Hill, trowch i'r chwith i gyfeiriad Croesoswallt. Yn Llechrydau, dilynwch y lôn garegog ar y dde gan gadw adeiladau'r fferm ar y chwith. Ar ôl 100 llath trowch i'r chwith gan ddilyn y lôn i fyny'r cae gan gadw'r gwrych ar y llaw dde. Ar ôl milltir, ger cyffordd o lonydd glaswelltog, ewch ymlaen ar hyd y prif lwybr ac i lawr yr allt ar hyd lôn garegog gan groesi rhyd a cherdded i fyny i fuarth y fferm (Bwlchydonge). Croeswch y buarth gan fynd i fyny'r lôn at y ffordd.

Ger y ffordd trowch i'r dde am 1/3 o filltir. Anwybyddwch y lôn garegog ar y dde gyferbyn â'r byngalo, ond trowch i'r dde gan ddilyn y lôn garegog nesaf (llwybr ceffylau). Ar ôl pasio'r giât trowch i'r dde a dilynwch y lôn i fyny'r allt gan groesi'r blanhigfa gonifferau. Cadwch at y prif lôn gan fynd drwy'r giât. Trowch i'r chwith i'r lôn garegog gan gadw'r gronfa ddŵr ar eich llaw dde, ewch yn eich blaen, heibio'r bont ar y dde, drwy'r goedwig ar hyd y brif lôn nes i chi gyrraedd y giât i fynd allan o'r goedwig.

Ar ôl gadael y goedwig dilynwch y lôn llawn rhigolau drwy'r cae (byddwch yn ofalus – rhigolau dwfn) at y llwybr ceffylau ar y dde. Trowch i'r dde gan ddilyn y llwybr ceffylau nes i chi fynd drwy'r giât ac i mewn i gae lle ceir mast. Trowch i'r chwith gan ddilyn y ffens nes i chi gyrraedd giât yn y gornel, peidiwch â mynd drwy'r giât ond dilynwch y lôn ar y dde ar draws y cae a farciwyd gan byst adlewyrchol. Dilynwch hwy nes i chi gyrraedd y ffordd. 50 llath cyn i chi gyrraedd y ffordd, trowch i'r dde gan ddilyn lôn garegog sy'n mynd i lawr allt. Ger y fforch ewch i'r dde, gan gadw ar y lôn nes y bydd yn troi'n lôn darmac ger gwaelod y bryn. Cyn i chi gyrraedd y bont sy'n croesi afon Ceiriog, trowch i'r dde ar yr hen Dramffordd. **(Sylwer: Mae'r Dramffordd yn llwybr ceffylau caniatool, os bydd ar gau dilynwch y ffordd hyd at y B4500. Trowch i'r dde, ewch yn eich blaen nes i chi gyrraedd y troad ar y chwith gyferbyn ag Oriol Melin Pandy).** Dilynwch y dramffordd ac unwaith y byddwch wedi croesi'r bont dros yr afon, ewch ar hyd y lôn darmac i Pandy gan gadw Oriol Melin Pandy ar yr ochr chwith.

Croeswch yma gan gymryd gofal, gall fod yn brysur iawn, ewch ar hyd y lôn darmac gyda'r arwydd 'Dim Ffordd Drwodd'. Ar ôl tua 3/4 milltir mae'r lôn yn dechrau mynd i lawr allt, ewch ar hyd y lôn sy'n mynd i fyny'r allt ar y dde. Ewch yn eich blaen ar hyd lôn garegog serth gan groesi planhigfa gonifferau nes i chi gyrraedd giât ar y dde heibio'r nant. Ewch drwy'r giât gan ddilyn hen lwybr

ceffylau pwn a arferai groesi mynyddoedd y Berwyn. Ger y gyffordd T trowch i'r dde ac ar ôl 100 llath ewch yn syth ymlaen i fyny'r allt gan anwybyddu'r prif lwybr sy'n gwyro i'r chwith.

Ger y ffordd darmac croeswch y ffordd gan ddilyn lôn fach nes i chi gyrraedd cyffordd T. Trowch i'r dde a dilynwch y lôn am 3 milltir heb droi oddi arni. Ar ôl mynd i lawr allt am gyfnod, byddwch yn dechrau dringo'n gyson i ben ffordd grib. **(Sylwer: mae'r "Cyswllt Canolog" yn dechrau ger Cyfeirnod Grid SJ 215 394 [Lledred 52.946677 Hydred -3.168966]).** 3/4 milltir wedi'r Cyswllt Canolog, a 200 llath wedi'r groesffordd, trowch i'r chwith drwy'r giât fetal ar hyd lôn fach. Dilynwch y lôn i lawr yr allt (mae'r golygfeydd o Ddyffryn Llangollen yn fendigedig ar ddiwrnod clir) gan groesi'r blanhigfa gonifferau. 100 llath ar ôl i chi adael y goedwig, dilynwch y lôn garegog ar y dde i fyny'r allt. Dilynwch y lôn am filltir nes i chi gyrraedd y ffordd darmac ar ben y bryn.

Dilynwch y lôn ganol o'r 3, gan fynd yn syth yn eich blaen am filltir ac yna trowch i'r dde. Ar ôl 75 llath trowch i'r chwith ar hyd lôn garegog. (Gweler y nodiadau 'Diogelwch' i gael mwy o wybodaeth am yr adran hon). Ger y fforch nesaf dilynwch y lôn sy'n mynd i lawr yr allt heibio 'The White House' o amgylch y troad sydyn. 50 llath ar ôl pasio'r troad dilynwch y lôn sy'n dyblu nôl ar y chwith. Dilynwch y lôn i fyny allt heibio'r tŷ ar y chwith a thrwy'r coed, gan gadw golwg am fasantod! Ger y groesffordd, trowch i'r dde i lawr yr allt. Ewch yn syth ymlaen gan basio Crogen Wladys (Cyfeirnod Grid SJ 258 384 [Lledred 52.946677 Hydred -3.168966]) at y briffordd ar waelod y bryn. **Byddwch yn ofalus iawn yma, mae'r traffig yn teithio'n gyflym iawn.** Croeswch y ffordd gan ddilyn y ffordd dros y bont sy'n croesi'r afon i fyny'r allt nes i chi gyrraedd cyffordd T. Trowch i'r chwith a dilynwch y lôn am 1/2 milltir gan basio hen odyonnau calch. Adeiladwyd yr odyonnau hyn tua 1770 i brosesu calch o chwareli niferus yr ardal. Gyferbyn â'r geiriau **ARAF** ar y ffordd, trowch i'r dde gan ddilyn y lôn raeanog/laswelltog am 300 llath nes i chi gyrraedd ffordd darmac.

Peidiwch â mynd ar hyd y ffordd, ond trowch i'r dde gan ddilyn lôn laswelltog am 3/4 milltir nes i chi gyrraedd ffordd darmac. Ewch yn syth ymlaen gan basio 3 troad ar y dde nes i chi gyrraedd cyffordd T. Trowch i'r chwith yma ac ar ôl 100 llath, dilynwch y ffordd ar y dde. Dilynwch y ffordd i fyny'r allt nes cyrraedd fforch yn y ffordd. Trowch i'r dde gan fynd yn eich blaen am filltir gan basio goedwig ar y chwith, nes i chi gyrraedd croesffordd. Trowch i'r chwith, ewch drwy'r goedwig gan basio i'r chwith drwy'r giât wrth ymyl grid gwartheg. Dilynwch y lôn nes i chi gyrraedd Llechrydau. Trowch i'r dde ar y ffordd darmac a'i dilyn yn ôl i Fferm Spring Hill.

Cyswllt Canolog

Disgrifiad o'r fan lle mae'n gadael y Prif Lwybr ac yn mynd i gyfeiriad y de. Mae'r pen Gogleddol yng Nghyfeirnod Grid SJ 215 394 (Lledred 52.946677 Hydred -3.168966).

O'r Prif Lwybr ewch i mewn i'r cae drwy giât fetal. Nid yw'r llwybr ceffylau hwn

wedi'i nodi'n glir felly cadwch yn agos at y gwrych ar y llaw chwith. Ewch drwy nifer o giatau at y lôn.

Trowch i'r dde yma a dilynwch y lôn am 200 llath. Trowch i'r chwith drwy giât ceffyl bren at y llwybr ceffylau. Ceir golygfeydd gwych ar hyd y llwybr hwn. Dilynwch y prif lôn gan gadw'r wal gerrig a'r gorlan ddefaid ar eich llaw dde ac ewch drwy 3 giât geffyl bren ychwanegol cyn cyrraedd y ffordd.

Trowch i'r chwith gan ddilyn y ffordd (edrychwch i'r dde i weld Castell y Waun) a throwch i'r dde ger y cyffordd T. Yn syth ar ôl pasio'r ciosg ffôn, trowch i'r dde gan ddilyn y ffordd i lawr yr allt. Ar ôl 160 llath trowch i'r dde drwy giât y cae at lwybr ceffylau arall sy'n gwyro i'r dde. Croeswch y nant ac yna dilynwch y pyst sy'n nodi'r ffordd. Mae'r llwybr yn gul mewn manau. Ewch drwy 2 giât at lôn sy'n arwain i fferm. Trowch i'r chwith gan fynd i lawr yr allt at ffordd wedi'i metelu. Trowch i'r dde wrth y ffordd a chyn pen 50 llath cymerwch y troad cyntaf ar y dde drwy fuarth y fferm. Ym mhen draw'r lôn werdd trowch i'r chwith gyferbyn â'r byngalo i lawr at briffordd y Waun / Glyn Ceiriog.

Byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffordd – mae'r traffig yn teithio'n gyflym a dilynwch yr arwydd i Lwynmawr. Ewch yn eich blaen ar hyd y ffordd i fyny'r allt gan basio Gwesty'r Golden Pheasant ar y chwith. 100 llath wedi'r troad i'r dde, trowch i'r chwith i fyny'r llwybr ceffylau. Mae'r llwybr yn croesi ffordd Selattyn / Glyn Ceiriog cyn mynd i fuarth fferm. Trowch i'r chwith ac yna trowch i'r dde ymron yn syth wedyn gan fynd drwy'r giât ac i fyny allt. Trowch i'r chwith ar ôl y giât gyda'r fferm ar y dde. Ewch yn eich blaen heibio adeiladu'r fferm, gan fynd drwy 2 giât a throi i'r chwith ger y ffordd. Ewch ar hyd y ffordd am tua milltir (gan anwybyddu'r troad i'r chwith) hyd nes i chi ailymuno â'r Prif Lwybr ychydig cyn Fferm Spring Hill.

Mae'r Llwybr hwn yn rhan o gyfres o daflenni ar gyfer marchogion. Mae rhan o'r daith hon yn gorgyffwrdd â 'Llwybr Ceiriog Uchaf' sydd hefyd ar gael.

Parcio

Gallwch barcio yn Nhafarn y Swan Inn ym Mhontfadog, rhif ffôn: 01691 718273. Mae'n hanfodol ffonio i archebu lle. Er bod y disgrifiad hwn yn nodi bod y daith yn dechrau ac yn gorffen ger Fferm Spring Hill, gallwch hefyd 'barcio a dechrau' mewn manau eraill. Nodir y rhain ar y map gyda P.

Pellter

Mae'r gylchdaith allanol yn 23 milltir o hyd a dylai gymryd rhwng 4 a 6 awr i'w chwblhau ar gefn ceffyl. Mae dwy daith fer hefyd wedi'u nodi. Mae'r map yn dangos pob ffordd fach a llwybr ceffylau, rhag ofn y byddwch am ddilyn eich trywydd eich hun. Mae'r teithiau hefyd yn addas i gerddwyr ac yn cysylltu â rhwydwaith gwych o lwybrau cerdded.

Amodau

Mae'r ddwy daith (mewnol ac allanol) yn mynd ar hyd ffyrdd annosbarthedig, ffyrdd bach a llwybrau ceffyl. Mae rhan o'r daith yn rhigolog ac yn mynd ar hyd llwybrau cul felly byddwch yn ofalus.

Diogelwch

Mae'r ddwy gylchdaith yn croesi ffordd brysur y B4500 – byddwch yn ofalus iawn wrth groesi yn y manau hyn. Ar y map rhwng y ddau bwynt a nodir gydag X ac Y, rhwng 1af Tachwedd a 31ain Ionawr, cynhelir cyfres o ddiwyddiadau Saethu ar yr Ystad – byddwch yn ofalus!

Cyfeirbwyntiau

Ar hyd y ddwy daith ceir cyfeirbwyntiau ym mhob cyffordd yn nodi'r symbol (gweler allwedd map y daith). Disgrifir y daith yr un ffordd â'r cloc o'r dechrau / diwedd; mae'r holl hawliau tramwy wedi'u nodi a'u harwyddo'n glir.

Mapiau

Ar gyfer yr ardal yn gyffredinol, defnyddiwch fapiau Landranger 117, 125 a 126. I weld mwy o fanylion, defnyddiwch y Map Explorer rhif 255. Cyhoeddir yr holl fapiau gan Arolwg Ordnans.

Bwyd a Diod

Mae nifer o dafarndai ym Mhontfadog (Swan Inn), Llwynmawr (Golden Pheasant), Glyn Ceiriog (nifer o westai a siop) a'r Waun (nifer o westai a siopau).

Llety

Mae dewis o lety ar gael yn Nyffryn Ceiriog. Gweler y daflen amgaeedig i gael mwy o fanylion.

Cod Cefn Gwlad Dyffryn Ceiriog

Mwynhewch y cefn gwlad a pharchwch bywyd a gwaith yr ardal
Cymerwch ofal am unrhyw berygl o dân
Cadwch giatau agored ar agor a chaewch giatau sydd wedi'u cau

Dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn bob amser
Cadwch at hawliau tramwy cyhoeddus
Defnyddiwch giatiau a chamfeydd i groesi ffensys, gwrychoedd a waliau
Cadwch draw o dda byw, cnydau a pheiriannau
Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
Helpwch i gadw dŵr yn lân
Gofalwch am fywyd gwyllt, planhigion a choed
Cymerwch ofal arbennig ar lonydd gwledig
Peidiwch â gwneud unrhyw sŵn di-angen
Gall buwch sydd â llo fod yn beryglus
Cymerwch ofal arbennig yn ystod y cyfnod wyna (misoedd Mawrth ac Ebrill yn lleol)

Ffonau Symudol

Oherwydd tirwedd yr ardal, fel arfer nid yw'n bosibl derbyn na gwneud galwadau

Rhoi gwybod am broblemau ynghylch Hawliau Tramwy

Cysylltwch ag Adran Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 01978 292000

Gwybodaeth Gefndir

Cyhoeddwyd y daflen wreiddiol gan Bartneriaeth y Waun a Dyffryn Ceiriog a Chymdeithas Llwybrau Ceffylau Wrecsam a'r Cylch gyda chymorth gwerthfawr gan wirfoddolwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Groundwork Wrecsam.

Testun gan Andrew Kelly

Pytiau o hanes lleol

Ar hyd llawer o'r dyffryn ceir dolydd gwastad a amgylchynir gan fryniau serth coediog. Ym mhen ucha'r dyffryn mae'r afon yn llifo drwy rostiroedd grug agored ac mae'r bryniau'n codi i uchder o 610 metr (2000 troedfedd).

"Dringais y mynydd i'r de o'r dref (Llangollen) i Lansantffraid Glyn Ceiriog, gan ryfeddu sawl tro at y golygfeydd godidog". Edward Pugh 1816 Cambria Depicta

Adeiladwyd Castell y Waun rhwng 1295 a 1310 ar safle uwchlaw Dyffryn Ceiriog, 1.5 milltir i'r gorllewin o'r Waun. Mae'r tir ar yr ochr ddeheuol yn fwy serth ond eto'n agored i ymosodiad. Dyma'r unig gastell yn ardal y Gororau y mae pobl wedi byw ynddo'n ddi-dor ers iddo gael ei adeiladu. Mae adeiladwaith cyffredinol y castell yn syml, yn enfawr ac yn gadael argraff. Adeiladwyd daeargelloedd y tŵr

De-orllewinol yn y graig. Daeth y teulu Myddleton i fyw yma yn ystod yr 16^{eg} Ganrif ac mae disgynyddion y teulu yn byw yn y castell hyd heddiw, er bod yr adeilad bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Credir bod Harri'r II wedi croesi Dyffryn Ceiriog yn Nhregeiriog yn 1165 gan orymdeithio ar hyd Ffordd Saeson i'r rhostiroedd moel agored i'r gorllewin o Nantyr. Yma mae'r tir yn gorsiog ac nid oedd unrhyw gysgod na thanwydd. Ymladdodd i gadw'r ôl yn erbyn y Cymry ger Clawdd Offa mewn man a elwir heddiw yn Nhir y Beddau.

Adeiladwyd y briffordd rhwng Llundain a Chaerdybi (A5) rhwng 1817 a 1826 gan basio trwy'r Waun. Ar hyd y ffordd hon arferai'r goets fawr gario'r post ar gyflymder o 9mya. Roedd pedwar ceffyl yn tynnu'r goets a byddent yn cael eu newid bob 10 i 15 milltir. Yn lleol roeddynt yn newid yng Nghroesoswallt a Llangollen a byddai'n cymryd 1.25 awr i gwblhau'r daith 13 milltir o hyd, yn cynnwys rhwng 2 a 5 munud i newid ceffylau.

Cymerodd y gwaith o adeiladu Tramffordd Dyffryn Glyn naw mis i'w gwblhau cyn ei hagor ym mis Ebrill 1873. Yn wreiddiol, tynnwyd y tramiau gan geffylau o Glyn Ceiriog at Gamlas y Shropshire Union yn Gledrid. Ar ôl newid i ddefnyddio pŵer stêm ymestynnwyd y dramffordd hyd at y Waun. Ym 1875 cynyddodd y traffig yn sgil agor chwareli'r Hendre.

Dechreuodd teithwyr ddefnyddio'r llinell ar 5^{ed} Mawrth 1891, a bu'r gwasanaeth yn rhedeg ymron yn ddi-dor nes iddo gau. Ar ei anterth ym 1925 cludwyd 37,000 tunnell o fwynau ar y llinell a theithiwyd ymron i 48,000 o filltiroedd ar ei hyd. Yn ddiweddarach, collwyd y rhan fwyaf o'r traffig mwynau i'r ffyrdd ac ym 1933 daeth y gwasanaeth i deithwyr i ben pan gyflwynwyd gwasanaeth bws. Caewyd y llinell ym 1935 a sgrapiwyd y cerbydau, ar wahân i un cerbyd sydd yn dal i redeg ar Reilffordd Talyllyn

"Mae digon o rostiroedd anial yng Nghymru y gellid eu defnyddio i gronni dŵr i Warrington neu unrhyw dref arall. Pam y maent wedi dewis dyffryn bach hyfryd afon Ceiriog?". David Lloyd George yn siarad yn ystod ail ddarlleniad Mesur Dŵr Corfforaeth Warrington ym 1923.

"Dyffryn dwfn iawn yn cynnwys dolydd ffrwythlon sy'n cael eu dyfrio gan nant Ceiriog ac a amgylchynir gan lethrau serth coediog". Thomas Pennant 1978.